

Cofion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Parhawn i gofio am Rhiannon Evans a Ceinlys M. Jones (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Hyderwn fod y ddwy yn cael gofal da a'u bod yn adnabod cariad Duw yn gwarchod drostynt. Cyflwynwn eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd hefyd. Gweddiwn y byddant yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Anfonwn ein cofion at ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal hefyd – Mr Glyn Williams (Cefn Meiriadog); Mr Bob Lloyd (Llanfair); Mrs Megan Evans (Llansannan); Mrs Gwenllian Jones a Mrs Gwyneth Griffiths (Henllan). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

I ddod

- **GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH CAPEL HENLLAN** dydd Llun, Hydref 14eg. Bydd plant Ysgol Henllan yn ymuno mewn gwasanaeth am 2.00 a bydd Rhodri yn rhoi sgwrs i'r plant. Bydd casgliad arbennig o ddewis yr ysgol yn mynd tuag at Tŷ Gobaith, ynghyd â chasgliad rhydd yr hwyr. Arweinir oedfa'r hwyr am 7.00 gan y Parch. W. H. Pritchard.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH** yng Nghapel Peniel nos Wener, Hydref 18fed. Pregethir gan y Parch. John Owen, Rhuthun.
- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** – Noson yng nghwmni Hogie'r Berfeddwlad yn Festri Llansannan nos Lun, Hydref 21ain am 7.30.
- **SWPER DIOLCHGARWCH CAPEL LLANNEYDD** yn y Neuadd nos Fercher, Hydref 23ain am 7.00 yng nghwmni'r Parch. Tecwyn Ifan.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** nos Iau, Hydref 24ain am 7.00, gyda'r Parch. Gareth Edwards yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **CLWB HYDREF (BL. 3-6)** yng Ngholeg y Bala, Hydref 28ain-29ain. Y gost fydd £40 sy'n cynnwys bwyd, llety a'r holl weithgareddau (hanner pris ar gyfer yr ail neu drydydd plentyn o'r un teulu). Mae'n bosib mynd am ddiwrnod yn unig am £12.00. Cofiwch bod **£10 o ostyngiad i bob unigolyn**, diolch i haelioni Eglwysi Bro Aled. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: colegybala.org neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 1af – 3ydd. Y gost fydd £63 (neu £31.50 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu). Cofiwch bod **£10 o ostyngiad i bob unigolyn**, diolch i haelioni Eglwysi Bro Aled. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: colegybala.org neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.



Llais Bro Aled

Medi 29^{ain} a Hydref 6^{ed}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso mawr i chi gyd i'r oedfaon heddiw lle y byddwn yn dod i addoli Duw ac i bledio arno i weithio'n rymus yn ein plith, yn ein gwlad, ac yn ein byd er mwyn 'i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di ddigwydd yma ar y ddaear fel mae'n digwydd yn y nefoedd.' (Mathew 6:10 Beibl.net)

Yng nghanol wythnos arall o newyddion gwleidyddol dramatig, cyhoeddwyd dros y dyddiau diwethaf fod cwmni gwyliau Thomas Cook wedi mynd i'r wal gyda chanlyniadau trychinebus yn dod yn sgil hynny. Yn ôl y sôn, roedd o gwmpas 150,000 o Brydeinwyr wedi cael eu heffeithio ar eu gwyliau, a miloedd o staff yn wynebu colli eu swyddi. Mewn cyfweiliadau ar y newyddion cyfaddefodd nifer o gwsmeriaid y cwmni oedd dal ar y cyfandir nad oedd ganddynt ryw lawer o syniad beth yn union fyddai'n digwydd nesaf, ond roeddynt yn gobeithio y gallent ddychwelyd adref yn fuan. Daeth adroddiadau eraill fod rhai o'r ymwelwyr wedi cael eu cloi allan o loffydd eu gwestai gyda'r perchnogion yn hawlio taliad ychwanegol cyn iddynt gael mynd i'w ystafelloedd! Lle mae rhywun yn troi yn y fath ansicrwydd a phryder? Gan amlaf beth welwn ni mewn cymaint o sefyllfaoedd tebyg yw pobl yn troi at rywun sydd ag awdurdod neu'r adnoddau i allu datrys eu dryswch. Yn achos Thomas Cook, mae'n debyg mai'r llywodraeth oedd wedi gorfod trefnu i wneud yn siŵr fod pawb yn dod adref, ond nid oes ganddynt hwy, hyd yn oed, y gallu i sicrhau gwaith i'r miloedd o staff a gollodd eu gwaith.

Beth amdanom ni felly? Pwy yw'r awdurdodau neu'r bobl yr ydym yn troi atynt i ddatrys ein problemau dyrys ni? Diolchwn fod yna asiantaethau ac unigolion sy'n barod i helpu eraill, ond mae'r Beibl yn ein hatgoffa mai dim ond Un sydd yna sydd â'r awdurdod, y gallu a'r dymuniad i fynd i'r afael â'n dryswch a'n hanawsterau pennaf ni fel pobl. Yn wir, newyddion da Cristnogaeth yw bod yna le diogel i droi waeth beth yw'r sefyllfa, a brenin sydd wedi cymryd agwedd gwas gan fynd i'r Groes er mwyn i bawb sy'n galw ar enw'r Arglwydd gael eu hachub. (Actau 2:21) Iesu Grist yw'r un sydd wedi gwneud y cyfan dros bobl ddiymadferth ac euog i sicrhau cartref tragwyddol iddynt gydag Ef. Ac yn wahanol i hanes Thomas Cook, mae Ef wedi talu'r pris drosom unwaith ac am byth fel na fydd gofyn i ni dalu eto am ein pechod, mae'r ddyled wedi'i thalu'n llawn ar Galfaria. Diolchwn i Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd! (Ioan 1:29)

Rhodri

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 29^{ain}

Mercher – 2^{il}

Iau – 3^{ydd}

Sadwrn – 5^{ed}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Parc, Y Bala.

Sul nesaf – 6^{ed}

Mercher – 9^{fed}

Iau – 10^{fed}

Gwener – 11^{eg}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.

Sul canlynol – 13^{eg}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – 29^{ain}

Mercher – 2^{il}

Sul nesaf – 6^{ed}

Mawrth – 8^{fed}

Mercher – 9^{fed}

Sul canlynol – 13^{eg}

- Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.
- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (29^{ain})**, os gwelwch yn dda.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Mr Gwydion Lewis yn arwain oedfa i'r daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) **yng Nghefn Meiriadog am 10.30.**
- Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (6^{ed})**, os gwelwch yn dda.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Bydd Rhodri yn arwain Oedfa Diolchgarwch i'r Teulu yn Llansannan am 11.00. Gwerthfawrogi cyfraniadau ar gyfer y Banc Bwyd, os gwelwch yn dda.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – 29^{ain}

Sul nesaf – 6^{ed}

Mercher – 9^{fed}

Sul canlynol – 13^{eg}

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol yn Llanefydd am 9.30 ac fe weinyddir y cymun.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00, a bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 11.00.
- Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00, a bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Groes am 11.00.
- Bydd Prysor Williams, Gwytherin yn agor tymor y Gymdeithas Lenyddol yn Henllan am 7.30.
- Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) **yn Llanefydd am 10.30.**

Peniel, Saron a Nantglyn

Sul yma – 29^{ain}

Sul nesaf – 6^{ed}

Iau – 10^{fed}

Sul canlynol – 13^{eg}

- Bydd oedfa wedi ei threfnu yn Saron am 10.00.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd Rhodri hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Cynhelir Oedfa Diolchgarwch Saron am 7.00 gyda'r Parch. Huw Dylan Jones yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith (Peniel, Saron a Nantglyn) ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.

Rhaglen Cymantfaedd Canu 2019-20

Os hoffech gael copi o'r Detholiad ar gyfer 2019-20 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i arolygwyr eich Ysgol Sul **erbyn dydd Sul, Medi 29^{ain}**, os gwelwch yn dda. Pris: £1.60.

(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair erbyn dydd Llun, Medi 30^{ain}, os gwelwch yn dda?)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (9^{fed}), os gwelwch yn dda.